

PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 2 - DYDD GWENER, 17 IONAWR 2025

**COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU 2 A GYNHALIWDYD YN Hybrid YN SIAMBR Y CYNGOR.Y SWYDDFEYDD
DINESIG, STRYD YR, Angel, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DDYDD GWENER, 17 IONAWR 2025 AM 10:00**

Yn bresennol

Cynghorydd F D Bletsoe - Cadeirydd

S Aspey

GH Haines

D T Harrison

J Llewellyn-Hopkins

Yn bresennol yn rhithwir

C Davies
R J Smith

P Ford
A Wathan

M Lewis

RL Penhale-Thomas

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

R Williams

Gwahoddedigion

Y Cynghorydd John Spanswick
Y Cynghorydd Jane Gebbie
Y Cynghorydd Hywel Williams

Arweinydd
Dirprwy Arweinydd / Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Lles
Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad

Mark Shepherd
Carys Lord
Claire Marchant

Prif Weithredwr
Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid
Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles

Deborah Exton
Eilish Thomas
Joe Boyle

Dirprwy Bennaeth Cyllid
Rheolwr Cyllid – Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles / Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr
Swyddog Polisi – Gweithlu Gofal Cymdeithasol

Swyddogion:

Meryl Lawrence

Uwch-swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Craffu

This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

Jessica McLellan

Swyddog Craffu

17. Cymeradwyo Cofnodion

Penderfyniad a Wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2 dyddiedig 14 Tachwedd 2024 fel cofnod gwir a chywir.
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	17 Ionawr 2025

18. Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2025–26 i 2028–29

Penderfyniad a Wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau ag Aelodau'r Cabinet ac Uwch-swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhelliad canlynol: Argymhelliad 1. Mynegodd y Pwyllgor bryderon dybryd ynghylch cynigion i leihau cyllideb SSW 12 a 13, gan dynnu sylw at y goblygiadau eang a fyddai'n deillio o ddiswyddiadau a'r effaith ar lwythi achosion a lles y staff sy'n weddill a'r risg i enw da y byddent yn ei chreu. Felly, argymhellodd y Pwyllgor y dylid dileu cynigion i leihau cyllideb SSW 12 a 13 ac na ddylid mynd ar eu trywydd fel arbedion.
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	17 Ionawr 2025

19. Ymgynghori ar Bolisi Trafnidiaeth a Gynorthwyr

Penderfyniad a Wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau ag Aelod Cabinet a Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion canlynol: Argymhellion
----------------------	--

PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 2 - DYDD GWENER, 17 IONAWR 2025

	2. Argymhellodd y Pwyllgor fod angen i'r amserlenni ar gyfer gweithredu'r Polisi fod yn gliriach. 3. Mynegodd y Pwyllgor bryder bod grŵp Gwell Gyda'n Gilydd Pen-y-bont ar Ogwr dan arweiniad Pobl yn Gyntaf yn datblygu'r cynllun hyfforddi ond bod Pobl yn Gyntaf wedi methu ag ymateb i'r ymgynghoriad. Argymhellodd y Pwyllgor, felly, y dylid cysylltu â Pobl yn Gyntaf i weld a yw'n barod i lunio a chyflwyno'r cynllun hyfforddi. 4. Argymhellodd y Pwyllgor fod y Polisi Cludiant â Chymorth yn cael ei ychwanegu at Flaenraglen Waith y Pwyllgor ar gyfer monitro yn y dyfodol a bod Pobl yn Gyntaf yn cael ei wahodd ar gyfer yr Eitem.
<u>Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad</u>	<u>17 Ionawr 2025</u>

20. Diweddariad ar y Flaenraglen Waith

Penderfyniad a Wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Flaenraglen Waith yn Atodiad A yn amodol ar gynnwys yr argymhellion isod, gan nodi y byddai'r Daflen Weithredu Monitro Argymhellion yn Atodiad B ac y byddai'r Flaenraglen Waith fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor yn cael ei hadrodd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol: 1. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid cael sesiwn friffio i'r holl Aelodau ar y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles a sut y rhagwelir y gallai helpu'n ddiogel i leihau nifer y staff. 2. Gofynnodd y Pwyllgor am ychwanegu'r adroddiadau a ganlyn at eu Blaenraglen Waith: a. Strategaeth Comisiynu Lleoliadau; b. Gweithredu'r Rhaglen Ailfodelu Cartrefi ar draws Gwasanaethau Oedolion; c. Diwygio Polisi i gynnwys astudiaethau achos o bob rhan o'r ddemograffeg; a d. Pholisi Trafnidiaeth â Chymorth (fel y crybwyllwyd uchod yn Argymhelliad 4).
<u>Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad</u>	<u>17 Ionawr 2025</u>

This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

21. Materion Brys

Penderfyniad a Wnaed	Dim.
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	17 Ionawr 2025

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y [ddolen](#) hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:29.